



Polisi Cyswllt Rhieni ac Athrawon

Policy for Parent and Teacher Contact

Diweddarwyd / Updated: 04/2024

Adolygiad Nesaf / Next Review: 04/2027

Ysgol Gymraeg Y Fenni
Heol Dewi Sant | St. David's Road
Y Fenni | Abergavenny
Sir Fynwy | Monmouthshire
NP7 6HF

Ffôn | Tel: 01873 852388
Ebost | Email: [ysgolgyfenni@monmouthshire.gov.uk](mailto:ysgolgymraegyfenni@monmouthshire.gov.uk)
Gwefan | Website: www.ysgolyfenni.co.uk



Polisi Cyswllt Rhieni ac Athrawon

Yn Ysgol Gymraeg Y Fenni, rydym yn gweithredu polisi 'drws agored' ar gyfer rhieni / gwarcheidwad. Diben y polisi yw annog cyfathrebu agored, adborth a thrafodaeth. Rydym yn croesawu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad rhieni i fywyd a gwaith yr ysgol.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg neu les eich plentyn, yna rydym yn credu ei bod yn well o lawer eich bod yn dod i mewn i'r ysgol i'w trafod neu yn cynnal sgwrs fidio - yn y lle cyntaf gyda'r athro dosbarth, ac yna gyda un o'r Uwch Dîm Arwain neu'r Pennaeth os nad ydych wedi eich bodloni.

Yr ydym yn cydnabod bod y cyfryngau cymdeithasol yn fforwm da i gyfathrebu a rhannu syniadau ond nid dyma'r lle delfrydol i fynegi anafodlonrwydd neu gwyno ynghlŷn â gweithdrefnau'r ysgol.

Trwy ddilyn canllawiau'r polisi hwn hyderwn y bydd modd datrys pryderon yn gyflym. Bydd staff yn gwrando ar eich pryderon ac yn gyweithio gyda chi i ddatrys unrhyw fater sy'n peri pryder. Disgwylir i staff a rhieni i ymddwyn yn rhesymol ac yn deg ar bob cyfrif. Mae'n bwysig er lles ein plant ein bod yn gweithio gyda'n gilydd.

Er mwyn gweithredu ein polisi yn effeithiol gofynnwn am eich cydweithrediad o flaen llaw â'r rheolau canlynol:

- Rhaid i bob ymwelydd gofrestru ei b/phresenoldeb ym mhrif swyddfa'r ysgol.
- Fel arfer, bydd athrawon dosbarth ar gael ar gyfer cyfarfod cyn dechrau'r diwrnod ysgol neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn ystod y cyfnod derbyn a throsglwyddo disgyblion.
- Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd yr athro ar gael am resymau dilys a dylid drefnu amser cytun i drafod unrhyw bryder.
- Yn yr un modd os ydych yn teimlo bod angen treulio mwy na 5 munud i drafod, yna dylid ffonio'r brif swyddfa i wneud apwyntiad i weld aelod o staff ar adeg sy'n gyfleus i'r ddwy ochr neu ebostio'r ysgol.
- Gwerthfawrogwn eich bod yn nodi diben y cyfarfod er mwyn medru ymateb yn briodol.
- Gall staff hefyd fod ar gael i gymryd galwadau ffôn. Os nad ydynt ar gael, gadewch rif cyswllt fel y gall yr aelod o staff eich ffonio'n ôl ar adeg sy'n gyfleus.
- Ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac yn ystod oriau gwaith, mae mynediad i'r brif adeilad yn cael ei reoli. Mae'r safle wedi ei gloi ar gyfer diogelwch ein disgyblion.
- Yr ydym yn ysgol sy'n hyrwyddo parch. Ni ddylai rhieni godi eu lleisiau na gweiddi ar staff. Mae ymddygiad ymosodol, heriol neu fygythiol yn annerbyniol. Mae'n bosib y byddwn yn gofyn i unrhyw un sy'n camddefnyddio'r polisi hwn i adael tir yr ysgol.
- Os ydych yn parhau i fod yn anafdon ar y ffordd y mae'r ysgol wedi delio â'r broblem, cyfeiriwch at y Polisi Cwynion gan ddilyn y drefn a amlinellir.
- Fe fydd staff yn ymateb i ebyst o fewn 24 awr (ar ddyddiau gweithio). Efallai y bydd ebost cychwynnol sy'n cadarnhau ein bod ni wedi derbyn eich neges er mwyn rhoi amser i ni ymchwilio mewn i'r mater.
- Fe fydd staff yn ymateb i ebyst o fewn eu oriau gwaith.